

Lance Carver  
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Bro Morgannwg  
Swyddfeydd Dinesig  
Holton Road  
Y Barri  
CF63 4RU

Dyddiad: 20 Ionawr 2022

Annwyl Gyfarwyddwr

## **Arolygiaeth Gofal Cymru - Archwiliad sicrwydd dilynol Cyngor Bro Morgannwg (Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc)**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau o'n harchwiliad sicrwydd dilynol yr ymgwymerwyd ag ef rhwng 23 a 25 Tachwedd 2021. Y diben oedd adolygu pa mor dda roedd Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Cyngor Bro Morgannwg (awdurdod lleol) a gwasanaeth y Swyddog Adolygu Annibynnol wedi datblygu ar eu taith wella i helpu a chefnogi plant a theluoedd ers archwiliad sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Mawrth 2021.

Roedd ein ffocws ar ddiogelwch a llesiant plant a theluoedd. Gwnaethom ganolbwyntio'n bennaf ar welliannau, profiad plant a phobl ifanc ac a oedd dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol, gan gynnwys disgwyladau arfer, wedi cael eu bodloni. Gwnaethom hefyd ystyried a oedd digon o wybodaeth wedi cael ei chofnodi ar ffeiliau achosion i gefnogi penderfyniadau amserol, priodol a chymesuro. Gwnaethom geisio sicrwydd i gadarnhau bod Swyddogion Adolygu Annibynnol yn hyrwyddo llais plant a phobl ifanc ac yn monitro pa mor dda yr oedd cynlluniau'n cael eu cyflawni i fodloni canlyniadau llesiant. Roedd ein holl linellau ymholi allweddol wedi'u fframio o fewn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

### **Crynodeb o'r canfyddiadau:**

**Pobl - llais a rheolaeth - Gwnaethom ofyn y canlynol:** Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn gweithio i gefnogi plant a theluoedd er mwyn i'w lleisiau gael eu clywed ac ystyried y canlynol:

- A yw plant a phobl ifanc yn derbyn cymorth i gymryd rhan yn y gwaith asesu, cynllunio ac adolygu?
- A yw sefydlogrwydd a chapasiti yn y gweithlu'n ddigonol i gynnal dyletswyddau statudol?

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfa Llywodraeth Cymru  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
LL31 9RZ  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 790 0126  
✉ [AGC@llyw.cymru](mailto:AGC@llyw.cymru)

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Welsh Government Office  
Sarn Mynach  
Llandudno Junction  
LL31 9RZ  
[www.careinspectorate.wales](http://www.careinspectorate.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebiaeth yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r awdurdod lleol wedi ymateb yn rhagweithiol i'r meysydd i'w gwella a nodwyd gan AGC yn yr archwiliad sicrwydd ym mis Mawrth 2021. Dan faner gorfforaethol y rhaglen Gwasanaethau Ail-lunio, roedd cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu a oedd yn nodi manylion gwelliannau ac amserlenni gofynnol ar gyfer cyflawni. Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu i hyrwyddo llais y plentyn, gweithredu dull sy'n seiliedig ar gryfder, yn ogystal â chamau gweithredu i gryfhau goruchwyliaeth reoli, casglu a dadansoddi data perfformiad a systemau sicrhau ansawdd. Gwnaeth cyfweiliadau ag uwch-arweinwyr gadarnhau cymorth gwleidyddol a chorfforaethol ar gyfer y rhaglen a dealltwriaeth a rennir o'r angen am welliannau.

Gwnaethom gydnabod bod yr awdurdod lleol wedi buddsoddi mewn datblygu dull unigryw sy'n seiliedig ar gryfder i arfer gwaith cymdeithasol. Mae'r awdurdod lleol yn ystyried hyn fel newid trawsnewidiadol tymor hir sy'n adeiladu ar sgiliau ac arbenigedd gweithwyr i helpu teuluoedd i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Cawsom wybod bod gweithredu dull sy'n seiliedig ar gryfder yn gynllun myfyriol sy'n newid i sicrhau bod y dull yn cael ei ymgorffori fel rhan o swyddogaeth feunyddiol yr awdurdod lleol.

Cawsom wybod am ymrwymiad strategol i'r dull drwy dystiolaeth gan gyfranogiad uwch-reolwyr ac aelodau etholedig mewn gweithdai hyfforddiant a datblygu. Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfathrebu rheolaidd am y dull i gydweithwyr a phartneriaid, gan anelu at gytundeb a chymorth amlddisgyblaethol ar gyfer y fframwaith ymarfer.

Gwelsom fod staff wedi derbyn "bagiau cit"<sup>1</sup>, ac wedi bod yn rhan o weithdai ar sut i ddefnyddio'r offer amrywiol ynddynt. Roedd ymatebion i'n harolwg staff yn cynnwys sylwadau cadarnhaol gan ymarferwyr ynghylch y defnydd adeiladol o "fagiau cit" yn eu gwaith gyda phlant a theuluoedd. Er hynny, ni wnaethom ganfod fframwaith cydlynol i sicrhau bod arfer cyson sy'n seiliedig ar gryfder ar waith. Dylai ymgorffori'r dull ymhellach gael ei roi ar waith yn gyflym. Nid yn unig y bydd newid mewn diwylliant yn sail i wella arfer ar draws yr holl wasanaethau, ond yn benodol, bydd yn darparu fframwaith mwy clir a geirfa a rennir a fydd yn galluogi gweithwyr proffesiynol a theuluoedd i nodi a chyflawni canlyniadau cadarnhaol i bobl yn fwy effeithiol.

Mae'r Gwasanaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol yn ymrwymedig yn glir i sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed yn ogystal ag ymgysylltiad mwy effeithiol â phlant sy'n derbyn gofal mewn adolygiadau o'u gofal a'u cymorth. Cawsom ein sicrhau gan Swyddogion Adolygu Annibynnol ynghylch eu hymgysylltiad cynyddol gyda phlant a phobl ifanc cyn adolygiadau pan y bo'n briodol. Yn dilyn yr archwiliad sicrwydd diwethaf, mae'r gwasanaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi datblygu sesiynau i ystyried ei arfer ei hun a meysydd i'w gwella, gan gynnwys adolygu safonau arfer. Gwelsom fod y plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cefnogi i gyfranogi yn eu hadolygiadau. Caiff eu hiaith, eu cyfathrebu a'u lefel aeddfedrwydd emosiynol a datblygiadol ei harchwilio. Nodwyd anghenion ac arsylwadau cyfathrebu gwahanol ar y ffeiliau a adolygwyd. Mae'n gadarnhaol bod Swyddogion Adolygu Annibynnol yn ceisio adborth gan blant unigol ac yn ceisio nodi a dysgu o'r hyn sy'n gweithio orau iddynt.

Mae'r awdurdod lleol yn ystyried hawliau'r plant i gynnig eiriolaeth ffurfiol. Gwnaeth gwybodaeth a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol gadarnhau bod plant yn cael cynnig mynediad i wasanaethau eiriolaeth a gwelsom dystiolaeth o hyn yn cael ei chofnodi ar

---

<sup>1</sup> Pecyn cymorth i hyrwyddo perthnasoedd llythrennog cymdeithasol ac emosiynol rhwng plant, gweithwyr proffesiynol a gofalwyr

ffeiliau plant sy'n profi gofal. Nodwyd mewn nifer o achosion bod gofalwyr maeth tymor hir yn gweithredu fel eiriolwyr cryf i'r plant yn eu gofal.

Cafodd arolygwyr wybod nad oedd gweithgareddau ymgynghori a fyddai wedi cael eu cynnal fel arfer â phlant a phobl ifanc o ran newidiadau i'r gwasanaeth wedi bod yn bosib oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Fodd bynnag, roedd yr awdurdod lleol wedi ymateb i negeseuon o ran arfer ac adborth gan blant a phobl ifanc mewn perthynas â'r iaith a ddefnyddir. Er enghraifft, maent wedi disodli'r term "cyswllt" ag "amser teulu" i adlewyrchu terminoleg ddewisol y plant a'r bobl ifanc. Mae'r awdurdod lleol yn ceisio adeiladu ar ddysgu cadarnhaol. Ynghyd ag ymgynghoriadau â phlant, mae'n bwriadu cyflwyno plattfform rhithwir neu ap i gasglu barn plant a phobl ifanc.

Fel sawl awdurdod lleol arall yng Nghymru, mae Cyngor Bro Morgannwg yn rheoli problemau gweithlu sylweddol. Mae cynllunio ar gyfer capasiti yn ffrwd waith allweddol o fewn rhaglen ail-lunio'r gyfarwyddiaeth, gan gydnabod pwysigrwydd sefydlogrwydd a digonolrwydd y gweithlu. Gwelsom fod cymorth corfforaethol sy'n ymrwymedig i gynyddu capasiti'r gweithlu, a'r dystiolaeth yw dull cynaliadwy a dychmygus i recriwtio a chadw ynghyd â rhagor o fuddsoddiad mewn dull "datblygu eich hunan" i ddatblygu'r staff presennol yn broffesiynol.

Mae'r awdurdod lleol wedi nodi recriwtio a chadw staff i'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd a'r Tîm Cynllunio a Gweithrediadau Gofal fel meysydd busnes hanfodol. Fel ymateb, mae cyflogau uwch wedi cael eu cyflwyno i ddenu aelodau newydd i'r timau hyn. Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r goblygiadau i blant a'u teuluoedd o ran y newidiadau yn y gweithlu a grëwyd yn sgil defnyddio staff asiantaeth. Mae'n gadarnhaol bod y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn datblygu cysylltiadau uniongyrchol ag asiantaethau recriwtio ac yn cadw data am y defnydd o staff asiantaeth i sicrhau llinell olwg glir ar y dulliau dirprwyo mwyaf effeithiol.

Roedd trafodaethau â rheolwyr ac adolygiadau o ffeiliau achos yn dangos tystiolaeth o sefydlogrwydd o fewn y Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Tîm 15+. Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn y timau hyn yn adnabod y plant roeddent yn gweithio gyda nhw'n dda ac yn deall eu hamgylchiadau. Gwelsom fod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi elwa o'r cyfle i ddatblygu perthnasoedd ag ymarferwyr.

Clywsom yn aml gan reolwyr am y gweithlu hynod ymrwymedig. Roedd mwyafrif y staff a wnaeth ymateb i'n harolwg a'r Swyddogion Adolygu Annibynnol y siaradwyd â nhw'n teimlo fel eu bod yn cael eu cefnogi gan eu cydweithwyr a'u rheolwyr. Dywedodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr i'r arolwg fod modd iddynt ymdopi â'u llwythi achosion, er bod llawer wedi sôn am "flinder" a "gorweithio". Mae angen canmol yr uwch-reolwyr a'r gweithlu er gwaethaf yr heriau o ganlyniad i'r pandemig, roedd lefelau salwch/absenoldeb wedi parhau i fod yn sefydlog ac roedd morâl staff yn dda yn gyffredinol. Mae hyrwyddo a chynnal llesiant y gweithlu'n amlwg yn flaenoriaeth i reolwyr ac uwch-arweinwyr.

**Llesiant - Gwnaethom ofyn y canlynol:** – Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn bodloni ei ddyletswydd statudol wrth hyrwyddo llesiant plant; gan sicrhau diogelwch plant rhag niwed, esgeulustod a chamdriniaeth a chefnogi teuluoedd i gyflawni canlyniadau sy'n bwysig iddynt ac ystyried y canlynol:

- *A ymgwymerir ag asesiadau ac adolygiadau mewn modd amserol ac yn unol ag amserlenni statudol?*

- *A yw ansawdd recordio asesiadau a chynlluniau gofal yn adlewyrchu'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud gyda phlant a theuluoedd?*

Mae data a gyflwynir gan yr awdurdod lleol yn cadarnhau bod angen gwneud gwelliannau sylweddol i sicrhau bod asesiadau ac adolygiadau'n cael eu gwneud o fewn amserlenni statudol.

Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod ymweliadau statudol yn cael eu cynnal mewn modd amserol. Er ein bod wedi cael sicrwydd o adolygiadau achos a thrafodaethau gyda rheolwyr a Swyddogion Adolygu Annibynnol bod plant a theuluoedd wedi derbyn ymweliadau, (yn ystod cyfyngiadau COVID), ac yn parhau i dderbyn ymweliadau, nid oedd llawer o'r "ymweliadau" yn bodloni safon arfer ofynnol "ymweliad statudol" ac felly nid ydynt wedi cael eu cofnodi felly. Rydym yn cydnabod, fel y mae'r awdurdod lleol, yr effaith bosib ar ddiogelwch y cyfaddawiad hwn ac felly dylai'r awdurdod lleol gyflawni gwelliannau cyflym yn y maes hwn.

Roedd yr awdurdod lleol yn cymryd camau gweithredu i gryfhau ei ddata perfformiad a'i systemau sicrhau ansawdd. Roedd gwaith yn cynnwys prosesau symleiddio o fewn system rheoli cofnodion electronig, System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, a datblygu safonau arfer wedi'u hanelu at gyflawni casgliad o ddata perfformiad cyson. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n galed i lanhau data perfformiad i gryfhau dealltwriaeth rheolwyr a gweithwyr o'u cydymffurfiaeth â gofynion rheoliadol ond hefyd fel bod yr awdurdod lleol yn gallu ymateb yn fwy effeithiol i unrhyw ddiffygion. Cytunwyd i roi capasiti dynodedig i'r Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc er mwyn ymgymryd â'r gwaith hwn.

Roedd yr awdurdod lleol wedi cyflwyno mesurau priodol (system RAG) i fynd i'r afael â'r heriau a brofwyd gan gynnydd cynaliadwy mewn cyfeiriadau a phwysau'r gweithlu gan olygu oedi mewn dyrannu asesiadau/ailasesiadau. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau blaenoriaethu dyrannu gwaith, gan ystyried lefel y risg, yr angen a'r amser aros. Pan nad yw achosion yn cael eu dyrannu, cynghorir atgyfeirwyr/asiantaethau partner er mwyn sicrhau dull partneriaeth i hyrwyddo diogelwch a llesiant y plant a'r teuluoedd dan sylw. Gwnaeth trafodaethau â rheolwyr ddangos eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd cofnodi penderfyniadau canlyniadau atgyfeirio a goruchwyliaeth reoli. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn y ffeiliau achos a adolygwyd.

Gwelsom fod ansawdd asesiadau a chynlluniau gofal yn anghyson a bod angen gwella rhai ohonynt yn sylweddol. Roedd yr awdurdod lleol wedi gweithio'n galed i hyrwyddo llais cryfach i blant a phobl ifanc yn eu cynlluniau gofal a chymorth a'r prosesau adolygu. Nid oedd y rhan fwyaf o'r asesiadau a chynlluniau a welsom yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac nid oedd yn amlwg bod plant a theuluoedd wedi bod yn rhan o'u llunio ar y cyd. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gynyddu datblygiad systemau sicrhau ansawdd a nodwyd fel rhan o'r rhaglen Gwasanaethau Ail-lunio i sicrhau bod gwaith monitro ansawdd asesiadau a chynlluniau mwy systematig wedi'u hanelu at ddatblygu gwella ansawdd.

Mewn un achos a adolygwyd, nid oedd cofnodion yn adlewyrchu'r gwiriadau sy'n cael eu gwneud gyda'r ysgol ynghylch pryder diogelu sy'n cael ei godi. Gwnaeth trafodaeth â rheolwr ddangos tystiolaeth o'r pryderon a chawsant eu trafod gyda'r teulu. Gwnaeth arolygwyr gydnabod y gwaith sydd ar droed, fodd bynnag, dylai'r awdurdod lleol sicrhau

mwy o fanylion o ran cofnodion i sicrhau cydymffurfiaeth â chodau ymarfer a gofynion cyfreithiol perthnasol i ddangos tystiolaeth o risgiau rheoli i ddiogelwch plant.

Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ymddangos yn hyderus yn ei rôl a'i allu i herio ac uwchgyfeirio achosion yn ôl y gofyn. Mae'r gwasanaeth Swyddogion Adolygu Annibynnol yn bwriadu mynychu cyfarfodydd y tîm gwaith cymdeithasol ac yn gweithio gyda phartneriaid statudol i sicrhau bod dealltwriaeth a rennir o'u rôl ac i atgyfnerthu perchenogaeth y plentyn o'i adolygiad. Roedd Swyddogion Adolygu Annibynnol yn barchus o ran y pwysau achosion cyfredol yn y timau gwaith cymdeithasol ac wedi bod yn rhagweithiol wrth weithio gyda thimau i atgyfnerthu pwysigrwydd rhoi gwybodaeth iddynt am unrhyw faterion sylweddol.

Roedd achos busnes i gynyddu capasiti'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn cael ei ystyried gan yr awdurdod lleol gan adlewyrchu cwmpas ail-ddifiniedig cyfrifoldebau'r gweithwyr i gynnal rôl sicrhau ansawdd uwch. Unwaith y caiff newidiadau i'r trefniadau hyn eu gweithredu ar draws yr holl dimau mae ganddynt y potensial i gefnogi'r gwelliannau angenrheidiol mewn arfer.

Mae gwiriad tymor canolig gyda'r Swyddog Adolygu Annibynnol gan gynnwys trafodaethau â'r gweithiwr cymdeithasol, y darparwr lleoliad a chyswllt uniongyrchol â'r plentyn/unigolyn ifanc wedi cael ei gyflwyno. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y ffeiliau a adolygwyd. Roedd Swyddogion Adolygu Annibynnol yn dweud bod hyn wedi cynyddu eu llwyth gwaith ond bod y trefniadau newydd yn cael eu gwerthfawrogi a bod y gwiriad tymor canolig yn adeiladol wrth sicrhau cynnydd, gan nodi symudiad neu rwystrau posib. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn cael eu darlunio'n gyson o fewn cofnodion.

Wrth drafod gyda rheolwyr a Swyddogion Adolygu Annibynnol, er eu bod yn hyderus bod yr arfer yn canolbwyntio ar y plentyn, gwnaethant gydnabod yr angen i loywi trefniadau i sicrhau bod gwaith sy'n cael ei wneud i ddarlunio llais a phrofiadau plant a theuluoedd yn cael ei adlewyrchu mewn cofnodion yn fwy amlwg a chyson. Efallai y gallai darlunio geiriau'r plentyn ei hun gael ergyd mwy pwerus i rai plant a phobl ifanc.

**Ataliaeth - Gwnaethom ofyn y canlynol:** Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo ataliaeth a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth mwy ffurfiol gan asiantaethau statudol ac i ystyried y canlynol:

- *A all plant a theuluoedd dderbyn ymyriadau cymesur amserol sy'n gwella eu sefyllfa?*
- *A all plant a theuluoedd gael mynediad i ofal a chymorth mewn modd amserol?*

Gwelsom dystiolaeth o ddarpariaeth gwasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan i helpu wrth gefnogi rhai plant a theuluoedd. Gwelsom y defnydd da a wneir o gyfeirio i Linell Cyngor Teuluoedd yn Gyntaf, tystiolaeth o'r tîm Teuluoedd yn Cyflawni Newid Gyda'i Gilydd yn cefnogi plant a theuluoedd nad oeddent yn gymwys am ofal a chymorth a/neu adael gofal a chymorth. Clywsom am nifer cynyddol o deuluoedd ag anghenion nad ydynt yn gymwys am ofal a chymorth yn cael eu cefnogi gan y tîm am y teulu a bod capasiti'r FFAL wedi cael ei gryfhau er mwyn cydnabod y cynnydd mewn galw.

Cawsom ein sicrhau bod cyfnewid gwybodaeth a chyfathrebu rhwng cymorth cynnar a gwasanaethau statudol yn effeithiol ar lefel strategol a gweithredol. Mae'n gadarnhaol bod y strwythur rheoli yn y Tîm Plant a Phobl Ifanc yn hwyluso llinell uniongyrchol o olwg o'r rhyngwyneb rhwng gwasanaethau sy'n darparu "rhwyd ddiogelwch" i rai teuluoedd lle mae gwaith mwy dwys yn dod yn angenrheidiol. Mae gan ymarferwyr cymorth cynnar a thimau

statudol y Gwasanaethau Plant fynediad i ymgynghoriaeth o amrywiaeth o arbenigwyr yn benodol camddefnyddio sylweddau a gweithwyr iechyd meddwl cynradd a swyddog cymorth cymunedol yr heddlu.

Mae data a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn dynodi y cafwyd cynnydd arwyddocaol yn y galw am wasanaethau. Cafwyd cynnydd hefyd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Er gwaethaf ymdrechion gorau'r awdurdod lleol, mae'n amlwg bod capasiti annigonol yng ngweithlu'r Tîm Plant a Phobl Ifanc i fodloni'r galw yma. Mae hyn yn golygu na all plant a theuluoedd gael mynediad at ofal a chymorth mewn modd amserol bob tro. Mae tystiolaeth o'n hadolygiad o ffeiliau achos yn cefnogi'r canfyddiad hwn.

Er mwyn cydnabod ac ymateb i'r cynnydd sylweddol mewn galw a brofwyd yn y rheng flaen a'r angen i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflenwi yn ddiogel, gwnaeth yr awdurdod lleol ddechrau rhaglen waith sydd â'r bwriad o wella'r prosesau yn y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd. Mae swyddi rheolwr ymarferydd a gwaith cymdeithasol ychwanegol wedi cael eu cymeradwyo. Roedd swyddogion gofal cymdeithasol hefyd yn cael eu recriwtio i gefnogi gweithwyr cymdeithasol, ac roedd adnoddau adrannol a chyfarwyddiaeth ehangach wedi cael eu defnyddio mewn modd hyblyg i leddfu pwysau. Ar adeg yr archwiliad ansawdd dilynol, roedd hi'n rhy gynnar i gyflwyno sylwadau ar effaith y newidiadau hyn.

Roedd y ffeiliau achos o blant sy'n derbyn gofal y gwnaethom eu hadolygu'n dangos yn glir ffocws cadarnhaol ar hyrwyddo parhauster, gan gynnwys yn y teulu. Gwelsom fod pwysigrwydd amser teulu gyda'r teulu genedigol yn cael ei ddeall yn dda gan weithwyr cymdeithasol. Lle cyflawnwyd parhauster drwy faethu tymor hir, roedd trefniadau cynllunio gofal yn cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu ymdeimlad clir o hunaniaeth. Gwelsom dystiolaeth mewn cynlluniau gofal a chymorth o waith uniongyrchol i helpu plant i ddeall eu sefyllfaoedd. Ar gyfer y gwaith achos mwyaf cymhleth, cafodd staff eu cefnogi drwy ymgynghori yn y panel seicoleg a phlant a theuluoedd drwy'r tîm ENFYS (gwasanaeth seicolegol yr ystyrir ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar ofal a llesiant plant a theuluoedd yn cael mynediad i'r gwasanaeth).

**Partneriaeth ac Integreiddio - Gwnaethom ofyn:** Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn gallu sicrhau cyfleoedd ar gyfer gwaith partneriaeth i sicrhau cyflawniad integredig sy'n datblygu cynaladwyedd ac i ystyried y canlynol:

- *A yw partneriaid yn gweithio ar y cyd â'r awdurdod lleol i gefnogi diogelwch a llesiant plant a theuluoedd?*

Mae effaith y pandemig wedi creu aflonyddwch i drefniadau partneriaeth rhanbarthol a lleol sefydledig. Fodd bynnag, clywsom fod byrddau diogelu a phartneriaeth rhanbarthol bellach wedi ailgychwyn a bod cyfarfodydd gweithredol rheoli ar y cyd wedi dechrau ail-flaenoriaethu gwasanaethau plant. Yn fwy diweddar, mae cynllunio ar y cyd ar draws y rhanbarth, gan gynnwys y Bwrdd Iechyd, yn datblygu ymateb i fodloni anghenion llety pobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty, ac roedd gwaith yn cael ei wneud gyda chydweithwyr yr heddlu i alinio trothwyon yn well gyda golwg i gyflawni arfer mwy cyson. Rhywbeth arloesol yw bod ap yn cael ei ddatblygu i gefnogi penderfyniadau'r heddlu ynghylch pryd i atgyfeirio i wasanaethau plant neu i FFAL.

Ar y gorau, mae tystiolaeth a welir mewn ffeiliau achos yn cefnogi gwaith partneriaeth adeiladol yng nghyd-destun diogelu. Gwelsom dystiolaeth o bartneriaid yn cyflwyno

adroddiadau diogelu ac yn cyfrannu at gyfarfodydd/drafodaethau strategaeth. Ar y gwaethaf, roedd un achos y gwnaethom ei adolygu yn dangos tystiolaeth o oedi wrth ymgymryd ag ymweliad ar y cyd ag asiantaeth bartner; nid oedd cofnodion yn cael eu cadw o ymdrechion i drefnu ymweliad na'r rhesymau dros yr oedi.

Roedd mwyafrif y staff a wnaeth ymateb i'n harolwg yn graddio gwaith partneriaeth i gefnogi plant a theuluoedd er mwyn gallu clywed eu lleisiau ac i dderbyn ymyriadau effeithiol, cymesur ac amserol sy'n gwella eu sefyllfaoedd fel da neu dda iawn.

Gwelsom waith partneriaeth cryf rhwng y Tîm Plant a Phobl Ifanc a'r adrannau Rheoli a Diogelu Adnoddau. Mae'r uwch-reolwyr o'r adrannau hyn wedi dangos ymrwymiad a rennir i sicrhau diogelwch a llesiant plant a'u teuluoedd.

### **Casgliad a Chamau Nesaf**

Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n galed i ymateb i'r canfyddiadau o'r archwiliad sicrwydd diwethaf gan AGC. Mae angen gwneud gwelliannau i hyrwyddo plant a theuluoedd ymhellach er mwyn i'w lleisiau gael eu clywed; er mwyn sicrhau bod ansawdd asesiadau ac adolygiadau yn cael ei wella a bod y rhain yn cael eu cyflawni mewn modd amserol yn unol ag amserlenni statudol.

Mae gwaith wedi dechrau ynghylch cryfhau safon cofnodi ond mae angen i'r gwaith hwn gael ei ymgorffori i sicrhau bod safon y cofnodi'n dda yn gyson. Bydd mwy o gyflymder o ran gweithredu dull cyson sy'n seiliedig ar gryfder a defnydd mwy systematig o wybodaeth am berfformiad ansoddol a meintiol yn helpu wrth gyflawni'r gwelliannau gofynnol.

Yn ystod ein cyfnod adolygu perfformiad nesaf (2022-23), bydd AGC yn parhau i fonitro cynnydd ynghyd â'r awdurdod lleol drwy weithgareddau adolygu perfformiad arferol. Caiff cynnydd ei adolygu'n rheolaidd yn fewnol drwy ddull sy'n seiliedig ar risg i gynllunio arolygu gan AGC yr awdurdod lleol.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol?>

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**  
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol  
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

## Atodiad 1

### Methodoleg

- gwnaethom adolygu dogfennau a roddwyd ymlaen llaw cyn ein harolygiad
- gwnaethom adolygu 14 o ffeiliau achos (naw atgyfeiriad/asesiad diweddar a phum plentyn sy'n derbyn gofal ar ôl yr adolygiad chwe misol cyntaf)
- gwnaethom gynnal sgwrsiau ar y cyd â rheolwyr gweithredol am y ffeiliau achos y gwnaethom eu hadolygu
- gwnaethom ddyrannu arolwg staff i'r Tîm Plant a Phobl Ifanc a Swyddogion Adolygu Annibynnol
- gwnaethom gynnal tri gweithdy a oedd yn cynnwys penaethiaid gwasanaeth (y Tîm Plant a Phobl Ifanc a'r RMS) a rheolwyr gweithredol, gan ganolbwyntio ar y canlynol: lleisiau plant, ymyriadau a gweithlu
- gwnaethom gynnal grŵp ffocws â Swyddogion Adolygu Annibynnol, eu rheolwr a rheolwr y tîm CPCP
- gwnaethom siarad yn unigol â chyfarwyddwr statudol y gwasanaethau cymdeithasol a'r aelod cabinet dros ofal cymdeithasol ac iechyd

**SYLWER:** oherwydd fformat yr arolygiad hwn, nid yw wedi bod yn bosib triongli canfyddiadau gydag ymarferwyr rheng flaen, partneriaid neu bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.